

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Caffael

Cyflwyniad

1. Y flaenoriaeth o hyd yw gwella ymarfer caffael cyhoeddus a'r canlyniadau a gyflawnir o'r gwariant blynyddol o £4.3 biliwn. Mynegir hyn yn glir yn ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu.
2. Mae cynnydd da wedi cael ei gwneud, gyda busnesau yng Nghymru bellach yn ennill dros 50% o wariant o gymharu â 35% yn 2003. Yn y sector adeiladu, caiff dwy ran o dair o'r contractau neu'r lleoedd ar fframweithiau eu hennill gan fusnesau cynhenid erbyn hyn.
3. Canmolodd Adolygiad McClelland, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012, y cynnydd hwn. Nododd John McClelland fod polisi caffael Llywodraeth Cymru wedi'i ddogfennu a'i fynegi'n dda a bod y polisi 'buddiannau cymunedol' wedi'i ddatblygu'n dda. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad nad oedd y polisi wedi'i fabwysiadu mewn ffordd gyson a nododd mai un ffactor allweddol oedd lefel yr adnoddau caffael proffesiynol sydd ar gael ym mhob sefydliad yn y sector cyhoeddus. Roedd yr adolygiad yn cyd-fynd i raddau helaeth â chanfyddiadau ac argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes a dderbyniais yn llawn ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2012. Gwnaeth McClelland nifer o argymhellion eraill ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain fel y nodir yn y papur hwn.

Datganiad Polisi Caffael Cymru

4. Argymhellodd Adolygiad McClelland y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi un ddogfen sy'n ymdrin â phob agwedd ar bolisi caffael. Cyhoeddais y ddogfen hon ar 6^{ed} Rhagfyr ac fe'i trafodwyd yn helaeth yn y Siambr ar 15^{fed} Ionawr 2013. Fe'i hatodir yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys esboniad clir o fwriad Llywodraeth Cymru, gan ymdrin â'r naw egwyddor y dylid eu defnyddio i wneud gwaith caffael cyhoeddus, ynghyd â chamau gweithredu penodol i Lywodraeth Cymru a sector cyhoeddus Cymru.
5. Mae'n egluro nad ystyrir bod mabwysiadu Polisi Caffael Cymru yn rhywbeth dewisol a bod y posibilrwydd o ddeddfu er mwyn sicrhau'r cynnydd sydd ei angen ar economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael ei ystyried.
6. Caiff y broses o fabwysiadu Polisi Caffael Cymru ei llywio mewn partneriaeth â Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSLG) y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a bydd Gwerth Cymru yn goruchwyllo sut y caiff ei roi ar waith. Rhagwelir y bydd cefnogaeth

busnesau i'r Polisi yn cael ei chydgyssylltu drwy Gyngor Adnewyddu'r Economi.

7. Mae Polisi Caffael Cymru yn cynnwys nifer o ddarpariaethau pwysig, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:
- Mae 'gwerth am arian' yn golygu ystyried buddiannau cymdeithasol ac economaidd a mesurau i leihau unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd i'r eithaf;
 - Dylai'r 'buddiannau cymunedol' chwarae rhan ganolog;
 - Mae gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddyletswydd i sicrhau bod ganddynt sgiliau ac adnoddau caffael digonol;
 - Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gymryd rhan mewn Gwiriadau Ffitrwydd Caffael;
 - Dylid symleiddio a safoni prosesau gan ddefnyddio SQuld er mwyn sicrhau y defnyddir arferion cymesur, seiliedig ar risg, sy'n lleihau costau ac yn golygu bod cyfleoedd contract yn agored i bawb;
 - Dylid ymrwmo i drefniadau caffael cydweithredol ar gyfer meysydd gwariant cyffredinol;
 - Dylid gwella deialog â chyflenwyr;
 - Dylid monitro canlyniadau'n fwy trylwyr.

Gwiriadau Ffitrwydd Caffael

8. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu rhaglen o wiriadau ffitrwydd er mwyn rhoi asesiad annibynnol o allu ac adnoddau sefydliadau yn y sector cyhoeddus o gymharu â 'model aeddfedrwydd' caffael. Rhagwelir y caiff y rhaglen hon ei rhoi ar waith yn ystod gwanwyn 2013. Mae PSLG yn darparu cymorth ac mae Jon House, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Caerdydd wedi cytuno i ymgymryd â'r asesiad cyntaf.

Prosiect Doniau Cymru

9. Mae prosiect *Defnyddio Doniau Cymru i Wella'r Byd Caffael*, a ariennir gan Raglen Gydgyfeirio ESF, yn gwella sgiliau staff presennol ac yn creu gallu ac adnoddau newydd. Mae hyn yn helpu i ymsefydlu dulliau caffael modern a chyflymu'r broses o fabwysiadu rhaglen e-gaffael 'cyfnewidcymru'.
10. Mae ugain o hyfforddeion caffael bellach yn cael cymorth i ennill cymwysterau caffael proffesiynol, gan helpu i gyflawni canlyniadau gwell ledled Cymru. Mae pedwar o hyfforddeion eisoes wedi symud i swyddi parhaol yn y sector cyhoeddus.
11. Mae dros 30 o swyddogion caffael hefyd yn cael cymorth i astudio i ddod yn aelodau proffesiynol o'r Sefydliad Prynu a Chyflenwi Siartredig.

12. Mae'n hanfodol bod arweinwyr yn cydnabod yr effaith a gaiff buddsoddi mewn caffael ac mae Fforwm Caffael Creadigol wedi'i sefydlu. Trefniant cydweithredol anffurfiol yw hwn rhwng Prifysgolion Bangor, Caerdydd, Morgannwg ac Abertawe a chaiff ei ddefnyddio i gydgyssylltu ymchwil er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu mentrau polisi caffael yn y dyfodol.

Buddiannau Cymunedol

13. Mae'r Compact ar gyfer Newid yn ymrwymo Awdurdodau Lleol i fabwysiadu cymalau cymdeithasol ym mhob contract addas sy'n werth dros £2m ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yr un peth. Mae defnyddio cymalau cymdeithasol i sicrhau cyfleoedd am hyfforddiant, cyflogaeth a chadwyni cyflenwi yn ategu'r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi' ac maent wedi'u cymhwyso erbyn hyn i 80 o brosiectau sy'n werth dros £4 biliwn.
14. Mae canlyniadau'r 17 o brosiectau cyntaf sydd wedi defnyddio'r cymalau hyn yn dangos bod dros 81% wedi'i ailfuddsoddi yng Nghymru - £74 miliwn yn uniongyrchol ar gyflogau i ddinasyddion yng Nghymru, a £152 miliwn gyda busnesau yng Nghymru, yr oedd 82% ohonynt yn fusnesau bach a chanolig. Helpwyd tua 357 o bobl ddifreintiedig i mewn i waith a darparwyd dros 13,000 o wythnosau o brofiad gwaith, gan gynnwys mwy na 12,000 o wythnosau o hyfforddiant i brentisiaid.
15. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chaiff ei gadeirio gan Martin Mansfield yn bersonol ac nid yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol y TUC. Mae'r Grŵp Gorchwyl yn gweithio i gryfhau'r polisi, cryfhau'r cymorth i helpu i'w weithredu'n ymarferol, a sicrhau y caiff ei fabwysiadu'n llawn ym mhob rhaglen a phrosiect perthnasol.

Y Broses Gaffael

16. Mae gofynion cyn-gymhwyso ym maes caffael wedi bod yn rhwystyr mawr i fusnesau bach a chanolig gystadlu am gontractau cyhoeddus. Mae datblygiad SQuld ar gyfer camau cyn-gymhwyso yn symleiddio'r rhan hon o'r broses gaffael drwy sicrhau bod y rhai sy'n caffael yn gweithredu ar sail risg, gan bennu meini prawf cymhwyso cymesur a defnyddio set gyffredin o gwestiynau. Mae busnesau wedi croesawu'r datblygiad hwn yn fawr ac mae wedi helpu contractwyr adeiladu yng Nghymru i barhau i ennill dwy ran o dair o'r holl gontractau neu fframweithiau mawr a ddyfarnwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (o gymharu â thraean yn 2010/11).
17. Mae dros 600 o weithwyr caffael yn y sector cyhoeddus wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio SQuld ac mae pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol yn ogystal â nifer o sefydliadau addysg wedi ymrwymo i'w defnyddio.

18. Mae fframwaith ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} ganrif gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ddinbych, sydd wedi ymrwymo i ddefnyddio SQuld a 'buddiannau cymunedol'. Mewn ymateb i bryderon busnesau cynhenid, adolygwyd y strategaeth 'lotiau' ac mae'r strategaeth sy'n cael ei chymeradwyo'n derfynol gan yr awdurdodau nawr yn rhoi cyfleoedd realistig i'r busnesau hyn.

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

19. Mae Adolygiad McClelland yn argymhell y dylid rhoi'r camau a gynigiwyd yn 'Buying Smarter in Tougher Times' ar waith, gan gynnwys sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r Gwasanaeth er mwyn caffael gwariant cyffredin ac ailadroddus 'unwaith i Gymru'. Mae PSLG yn mynd i'r afael â hyn a bydd yn adeiladu ar waith Gwerth Cymru (sydd wedi cyflawni dros £130m o arbedion effeithlonrwydd hyd yma).
20. Cymeradwywyd yr achos busnes gan PSLG ym mis Medi ac anfonwyd llythrau gwahoddiad i ymuno â'r Gwasanaeth ar 8^{fed} Hydref. Hyd yma derbyniwyd 70 o ymatebion cadarnhaol, yn cynnwys gan bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol, a rhagwelir y bydd y Gwasanaeth yn cael ei lansio ym mis Tachwedd 2013. Mae'n anelu at gwmpasu tua 20-30% o gyfanswm gwariant caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal â gwaith i ddiffinio cwmphas, buddiannau a model gweithredu'r Gwasanaeth, gofynnwyd i grŵp o gynrychiolwyr busnes ystyried yr effaith economaidd. Ar hyn o bryd dim ond rhyw 15% o'r gwariant perthnasol mae busnesau yng Nghymru yn ei ennill a daeth y grŵp i'r casgliad fod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cynnig cyfle da ac felly cymeradwyodd gamau i fwrw ymlaen â'r achos busnes.

Casgliad

21. Fel y gwnaethom gytuno yn y Siambr ar 15^{fed} Ionawr, mae dulliau caffael y sector cyhoeddus yn cael effaith sylweddol ar economi Cymru. Mae angen cydbwysu'r ymdrechion i gyflawni effeithlonrwydd yn erbyn yr effaith economaidd leol. Cyfeiria Adolygiad McClelland at gynnydd da ynghyd â meysydd i'w gwella sy'n cael eu datblygu. Mae datganiad Polisi Caffael Cymru yn egluro'r hyn rwyf yn ei ddisgwyl gan sector cyhoeddus Cymru a'r posibilrwydd o ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Rydym eisoes yn gweld canlyniadau yn sgil mabwysiadu egwyddorion y polisi, yn enwedig yn y sector adeiladu, fel y dangosir gan y 'buddiannau cymunedol' a chanlyniadau SQuld. Rhoddir cymorth i ddatblygu gallu ac mae datblygiadau allweddol yn cynnwys y rhaglen Gwiriadau Ffitrwydd Caffael a sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Atodiad 1

Datganiad Polisi Caffael Cymru

O ganlyniad i adolygiad McClelland, datblygwyd Polisi Caffael Cymru i helpu i weithredu argymhellion adroddiad 'Maximising the Impact of Welsh Procurement Policy'. Mae'n nodi'n glir yr egwyddorion y dylai Sector Cyhoeddus Cymru, sef Awdurdodau Lleol, y GIG, sefydliadau Addysg, sefydliadau Tân ac Achub a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, eu defnyddio wrth gaffael a'r disgwyliadau o ran y ffordd y byddant yn gwneud hynny. Dylai arweinwyr y sefydliadau hyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn mabwysiadu'n llawn y canllawiau manylach a'r adnoddau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ac y gellir cael gaffael arnynt drwy ein [Canllaw Cynllunio Caffael](#) ar-lein.

Tynnodd ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru i foderneiddio Polisi Caffael yr UE sylw hefyd at yr angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi caffael clir.

Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario tua £4.3bn y flwyddyn drwy gaffael. Mae hyn yn cyfateb i bron i draean o gyllideb sector cyhoeddus Cymru ac felly, gall fod yn sbardun hollbwysig i gefnogi twf economaidd yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio dulliau caffael arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol a sicrhau cymaint o werth ychwanegol â phosibl i economi a chymunedau Cymru.

Mae gwerth ychwanegol yn golygu, lle bo hynny'n bosibl, y byddwn yn defnyddio caffael cyhoeddus yn greadigol fel dull strategol o helpu i sicrhau buddiannau economaidd i bobl a chymunedau Cymru drwy gyfleoedd am gyflogaeth, hyfforddiant a chadwyni cyflenwi.

Atgyfnerthwyd ein dull o weithredu yn y maes pwysig hwn gan y gwaith sy'n cael ei gwneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen arbenigol a gadeirir gan Martin Mansfield, ac mae'n cefnogi'r cynllun gweithredu "Trechu Tlodi".

Mae bod yn strategol yn golygu gwneud penderfyniadau cynnar am y ffordd orau o gomisiynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau, gan gynnwys penderfynu ai grantiau neu gaffael yw'r dull ariannu mwyaf priodol.

Wrth gwrs, dylid gwneud penderfyniadau caffael ar sail ansawdd/cost/risg ond rhaid i ni ystyried yr effaith hirdymor hefyd. Drwy wneud hynny rydym yn cefnogi'r egwyddorion a ddefnyddir i lunio'r Bil Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r Datganiad Polisi hwn yn nodi'r dulliau a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf drwy ymgynghori ac ymgysylltu. Profwyd bod y rhain yn gweithio. Nid oes rheswm nac esgus pam na all pob sefydliad eu mabwysiadu'n llawn a rhaid iddynt wneud hynny ar unwaith.

Mae gan y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun, gyfrifoldeb cyfunol i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth, er budd pobl Cymru ynghyd â dyletswydd i sicrhau bod y sgiliau a'r adnoddau cywir ar gael.

Mae'n bwysig bod y deialog cryf rhwng y sector cyhoeddus a busnesau yn parhau er mwyn sicrhau bod pob ochr yn gwella'n barhaus. Mae'r Datganiad Polisi yn adeiladu ar 'Agor Drysau, y Siarter ar gyfer Caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig', a bydd yn sicrhau bod caffael cyhoeddus yn helpu i wneud Cymru yn lle da i wneud busnes, gan ddatblygu sail gyflenwi gadarn, a chyfrannu at seilwaith economaidd iach.

Mae adolygiadau McClelland a'r Pwyllgor Menter a Busnes yn nodi'r amrywiadau sylweddol mewn adnoddau sgiliau caffael, yn enwedig yn y sector llywodraeth leol.

Yn y gwanwyn, caiff rhaglen o wiriadau ffitrwydd ei rhoi ar waith a bydd yn galluogi pob sefydliad i ailasesu ei swyddogaethau a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Bydd y gwiriadau hefyd yn tynnu sylw at ymarfer enghreifftiol ac yn galluogi eraill i ddysgu oddi wrtho a'i fabwysiadu.

Ni chredaf fod mabwysiadu polisiâu'r Datganiad hwn yn ddewisol ac mae'r posibilrwydd o ddeddfu er mwyn sicrhau'r cynnydd sydd ei angen ar economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael ei ystyried.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried a fydd yn fuddiol trosi neu reoleiddio ar gyfer y Cyfarwyddbau Ewropeaidd newydd. Mae'r cynigion hyn gan yr UE yn cefnogi llawer o'n polisiâu a'n darpariaethau a all helpu i ysgogi cynnydd. Os na chaiff polisiâu Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu'n llawn, rydym yn barod o hyd i gryfhau dyletswyddau caffael cyhoeddus drwy reoliadau neu ddeddfwriaeth ychwanegol.

Caiff y broses o fabwysiadu Polisi Caffael Cymru ei llywio mewn partneriaeth â Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSLG) y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Bydd cefnogaeth busnesau i'r Polisi yn cael ei chydgysylltu drwy Gyngor Adnewyddu'r Economi. Bydd tîm Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Polisi hwn ac yn monitro sut y caiff ei fabwysiadu'n ofalus.

Nid oes amheuaeth y gall caffael da ysgogi effeithlonrwydd a sicrhau buddiannau lleol. Hyderaf y bydd y Datganiad Polisi hwn yn helpu i sicrhau mwy o effeithlonrwydd a buddiannau yn y dyfodol.

Jane Hutt, AC
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Rhagfyr 2012

Diffiniad o Gaffael

Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy¹ o gaffael:

"mae caffael cynaliadwy yn broses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran cynhyrchu buddiannau nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, tra'n sicrhau y gwneir cyn lleied o ddifrod â phosibl i'r amgylchedd". (Cyfieithiad)

Egwyddorion Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru

Wrth wneud gweithgarwch caffael, disgwylir i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu'r egwyddorion polisi canlynol:

1. **Strategol** - Dylid cydnabod bod caffael yn swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu ac yn deall gwariant, a dylid ei rheoli fel y cyfryw; yn swyddogaeth sy'n dylanwadu ar waith cynllunio a dylunio gwasanaethau cynnar ac yn cyfrannu at benderfyniadau er mwyn helpu i gyflawni amcanion cyffredinol.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • pennu 'model aeddfedrwydd' y gellir ei ddefnyddio i fesur datblygiad prosesau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. • datblygu ac ariannu Gwiriadau Ffitrwydd Caffael Cymru.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • mesur ei hun yn erbyn y model aeddfedrwydd, drwy gynnal Gwiriadau Ffitrwydd Caffael rheolaidd a chyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn erbyn argymhellion a chynlluniau gweithredu.
---	--

2. **Adnoddau proffesiynol** - dylid sicrhau bod lefel briodol o gyfranogiad a dylanwad proffesiynol ynghlwm wrth wariant caffael ac, fel meincnod cychwynnol, dylid sicrhau bod o leiaf un gweithiwr caffael proffesiynol am bob £10m o wariant.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • cyhoeddi fframwaith cymhwysedd sy'n nodi'r cymwysterau, y profiad a'r	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • sicrhau bod digon o sgiliau ac adnoddau ar gael i gaffael a
---	--

¹ Procuring the Future, 2006

arbenigedd a fydd yn cefnogi gyrfa strwythuredig ym maes caffael. • darparu llwybrau i hyfforddiant a chyfleoedd datblygu, gan gynnwys y rhai sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i feithrin arbenigedd caffael proffesiynol.	rheoli contractau yn effeithiol. • meddu ar gynllun hyfforddiant caffael sy'n llenwi bylchau o ran anghenion a sgiliau a rhannu'r cynllun hwn â Llywodraeth Cymru er mwyn ategu ei strategaeth datblygu sgiliau yn y dyfodol.
Dolen bolisi: Hyfforddiant Caffael	

3. **Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol** - Dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau gydol oes nid yn unig yn nhermau cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, tra'n sicrhau y gwneir cyn lleied o ddifrod â phosibl i'r amgylchedd.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • darparu adnoddau fel yr Asesiad Risg Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn ystyried effaith hirdymor ar y cyfuniad o fuddiannau.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • defnyddio'r adnoddau hyn yn briodol yn ei brosesau gwneud penderfyniadau. • defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchir gan yr adnoddau hyn i baratoi'r datganiadau blynyddol y bydd eu hangen o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy.
Dolen bolisi: Adnoddau Cynaliadwyedd	

4. **Buddiannau Cymunedol** - rhaid sicrhau bod gwaith caffael yn rhoi ystyriaeth ganolog i ddarparu gwerth ychwanegol drwy bolisi Buddiannau Cymunedol.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • arwain y gwaith o gynnal ac atgyfnerthu polisi Buddiannau Cymunedol; atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael ar lawr gwlad a herio'r ffordd y caiff ei gymhwyso.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • defnyddio Buddiannau Cymunedol yn ei holl waith caffael sector cyhoeddus lle gellir cyflawni buddiannau o'r fath. • defnyddio'r Adnodd Mesur ar gyfer pob contract sy'n werth
--	--

	mwy na £2m er mwyn casglu gwybodaeth am ganlyniadau ac adrodd arnynt i Lywodraeth Cymru.
Dolen bolisi: Buddiannau Cymunedol Cymru : Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith	

5. **Cystadleuaeth agored, hygyrch** - dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg er mwyn sicrhau bod cyfleoedd contract yn agored i bawb ac na chaiff cyflenwyr lleol, llai o faint eu hatal rhag ennill contractau yn unigol, fel consortia neu drwy rolau yn y gadwyn gyflenwi.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • darparu www.gwerthwchigymru.co.uk, gan gynnwys set o gwestiynau cyffredin SQuID. • cynnal a datblygu dull SQuID o ddewis cyflenwyr. • gwella gwybodaeth am flaenraglenni drwy barhau i gyhoeddi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • defnyddio www.gwerthwchigymru.co.uk i hysbysebu pob contract dros £25k. • cymryd camau rhagweithiol i gyhoeddi ei flaenraglenni contract • sicrhau bod strategaethau 'lotiau' priodol yn cael eu defnyddio. • defnyddio SQuID fel mater o drefn wrth ddewis cyflenwyr. • annog prif contractwyr i ddefnyddio cyfleuster 'Haen1' i hysbysebu cyfleoedd o ran cadwyni cyflenwi ar www.gwerthwchigymru.co.uk.
Dolen bolisi: Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID)	

6. **Prosesau Safonol wedi'u Symleiddio** - dylai prosesau caffael fod yn agored ac yn dryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol o weithredu a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, costau, amserlenni a gofynion i gyflenwyr i'r eithaf.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • datblygu ac yn hyrwyddo dulliau caffael wedi'u	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • mabwysiadu ac yn defnyddio
---	--

symleiddio, sy'n seiliedig ar fabwysiadu systemau a phrosesau cyffredin, gan gynnwys gwasanaeth e-gaffael Cymru, sy'n lleihau'r gost o wneud busnes. • monitro i ba raddau y caiff y dulliau hyn o weithredu eu mabwysiadu a'u heffaith.	dulliau caffael cyffredin. • gwneud y defnydd gorau o adnoddau e-gaffael sydd ar gael. • annog cyflenwyr i roi adborth ar hwylustod y broses a'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru • talu pob anfoneb gywir yn brydon
Dolen bolisi: cyfnewidcymru Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID)	

7. **Cydweithredu** - dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylebau safonedig er mwyn lleihau achosion o ddyblygu, cael yr ymateb gorau gan y farchnad ac ymsefydlu arfer gorau; a rhannu adnoddau ac arbenigedd.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • cryfhau sianelau i gyflawni gwaith caffael ar y cyd. • defnyddio arweinyddiaeth ar y cyd i ysgogi cydweithredu effeithiol.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • ymrwymo i gymryd rhan mewn mentrau caffael cydweithredol er budd Cymru a'i sefydliad unigol. • monitro mentrau caffael cydweithredol ac adrodd ar ei rôl yn y mentrau hynny.
Dolen bolisi: Contractau ac Adnoddau	

8. **Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi** - dylid trafod mwy â chyflenwyr er mwyn helpu i gael y gorau o'r farchnad, hysbysu ac addysgu cyflenwyr a darparu'r gwerth gorau am arian.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • annog cyrff cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu dulliau caffael a gaiff eu llywio gan adborth gan y gadwyn gyflenwi a'u seilio arno.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • cyhoeddi un pwynt cyswllt electronig ar gyfer trafodaeth/adborth/ymholiadau mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi. • sicrhau bod trefniadau dadfrifio yn rhoi digon o adborth ar dendrau. • defnyddio manylebau sy'n
--	---

	seiliedig ar ganlyniadau lle bo hynny'n briodol er mwyn annog busnesau i arloesi • sicrhau y caiff adolygiadau rheoli perfformiad rheolaidd eu cynnal fel rhan o gontractau a'u defnyddio i annog trafodaethau dwyffordd
Dolen bolisi: Canllaw Cynllunio Caffael	

9. **Mesur ac Effaith** - yn unol ag arfer rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau caffael er mwyn cefnogi gwelliant parhaus, a dylid rhannu enghreifftiau o arfer da a gwael.

Sut y caiff hyn ei gyflawni?

Bydd Llywodraeth Cymru yn: • darparu fframwaith o fesurau perfformiad caffael sy'n gymesur ac yn helpu i ysgogi gwelliant. • casglu gwybodaeth a gofyn i PSLG a'r Bwrdd Caffael ystyried perfformiad a helpu i roi'r polisi ar waith.	Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn: • rhoi adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar ganlyniadau gwaith caffael.
Dolen bolisi: Y Fframwaith Mesur	